# PWYLLGOR SAFONAU
# 30 MEDI 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Caerwys ddydd Llun, 30 Medi 2019.

**YN BRESENNOL: Rob Dewey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley.

Aelodau Cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, a Ken Molyneux.

**YMDDIHEURIAD:**
Julia Hughes.

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:**
Y Cynghorwyr: Roy Wakelam – Cyngor Cymuned Penyffordd; Michael Moriarty, Susan Broadway a Steve Wilson – Cyngor Tref Caerwys; Gareth Evans – Cyngor Cymuned Higher Kinnerton; Richard Dolphin a William Glynn – Cyngor Cymuned Chwitffordd; Ian Hodge a Ted Palmer – Cyngor Tref Treffynnon a Huw Morgan – Cyngor Cymuned Nannerch. Roedd Phillip Parry, Clerc Cynghorau Cymuned Caerwys, Chwitffordd a Helygain hefyd yn bresennol.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

## 27. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 28. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 29. GODDEFEBAU

Ni ofynnwyd am oddefebau.

## 30. EITEMAU A GODWYD GAN Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

(a) I drafod unrhyw faterion moesol neu waith y Pwyllgor Safonau a godwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned:

Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd wedi derbyn unrhyw beth cyn y cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw faterion gan y rhai oedd yn bresennol, ond doedd dim.

(b) I fesur diddordeb i gynnal digwyddiad hyfforddi i Gynghorwyr newydd ar y cod ymddygiad a chwilio am wirfoddolwr i'w gynnal:

Dywedodd y Swyddog Monitro bod dau gyngor tref a chymuned wedi cysylltu ag o ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnig hyfforddiant i Gynghorwyr newydd am y Cod Ymddygiad. Os oedd yna awydd am hyfforddiant o'r fath fe allai gael ei ddarparu ac roedd yn chwilio am gyngor tref a chymuned i wirfoddoli i gynnal yr hyfforddiant.

Gofynnwyd a oedd modd i sesiwn o'r fath gynnwys hyfforddiant i Gadeiryddion, a chafodd hyn ei gefnogi. O ran lleoliad ar gyfer yr hyfforddiant, eglurodd y Swyddog Monitro y byddai rhywle yng ngogledd orllewin y Sir yn well gan y gallai gynnwys hyfforddiant gofynnol ar gyfer aelodau newydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'n debygol y bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ddechrau fis Tachwedd. Dywedodd y Cynghorydd William Glynn o Gyngor Cymuned Chwitffordd y byddai'n gofyn yng nghyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Chwitffordd a fyddent yn hapus i gynnal y digwyddiad yn Neuadd Bentref Carmel.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei gynnig i Gynghorwyr newydd, a bod y sesiwn hefyd yn cynnwys hyfforddiant i Gadeiryddion; ac

(b) Ystyried defnyddio Neuadd Bentref Carmel ar gyfer yr hyfforddiant yng nghyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Chwitffordd.

Amrywio Trefn y Rhaglen

Dywedodd y Cadeirydd mai'r eitem nesaf i'w thrafod fyddai Rôl Cynghorydd.

**31. RÔL CYNGHORYDD**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn manylu ar rôl Cynghorydd Sir a'r disgwyliadau posibl ganddynt.

Gyda'i gilydd, y 70 o Gynghorwyr ydi Cyngor Sir y Fflint, felly mae Cynghorydd yn rhan annatod o'r Cyngor.

Roedd disgrifiad o rôl Cynghorydd Cyngor Sir y Fflint wedi'i gyhoeddi ar y wefan, ac roedd yn ymdrin ag atebolrwydd, rôl, pwrpas a gweithgarwch.

Fel canllaw, roedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn credu fod rôl Cynghorydd 'meinciau cefn' yn debygol o fod gyfwerth â gweithio tri diwrnod yr wythnos. Roedd Aelod Cabinet yn debygol o weithio yr hyn oedd gyfwerth â 37 awr yr wythnos.

Roedd gan Gynghorwyr Tref a Chymuned rôl ar wahân eu hunain i'w chwarae. Roedd hi'n bwysig fod Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned yn cydweithio i gynrychioli eu cymunedau ac fel arall, roedd Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hannog i weithio'n agos â'u gilydd a chynnal cyfarfodydd rheolaidd – dyma oedd pwrpas Fforwm Sir y Fflint.

Cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) 'Canllaw i Gynghorwyr Newydd yng Nghymru' sydd yn nodi rôl Cynghorydd, ac roedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd canllaw cymdeithas Llywodraeth Leol i weithio mewn amgylchedd gwleidyddol ynghlwm wrth yr adroddiad hefyd. Croesawodd y pwyllgor yr adroddiad, yn enwedig canllaw CLILC gan ofyn bod y canllaw'n cael ei anfon at bob Cynghorydd Sir a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned.

Dywedodd Ken Molyneux fod yr wybodaeth am gyfryngau cymdeithasol o fewn y ddogfen yn brin. Fe eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod gan CLILC brotocol ar wahân ar gyfer cyfryngau cymdeithasol; eglurodd y Swyddog Monitro fod hyn wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Safonau o'r blaen, ac roedd modd dod o hyd iddo ar wefan CLILC. Fe ychwanegodd y byddai rhagor o wybodaeth ar gael gan Glercod Cynghorau Tref a Chymuned oedd â mynediad at Un Llais Cymru neu Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn yr adroddiad; a

(b) Anfon copi o ganllaw CLILC 'Canllaw i Gynghorwyr Newydd yng Nghymru', oedd yn nodi rôl Cynghorwyr, at Gynghorau Sir a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned.

## 32. ADRODDIADAU O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL A CHYNGHORAU TREF/CYMUNED

Cyflwynodd Rob Dewey ei adroddiad ar lafar ar ôl ymweld fel aelod annibynnol â chyfarfod Cyngor Cymuned Northop Hall a gynhaliwyd ar 10 Medi.

Bu'r cyfarfod yn brofiad cadarnhaol iawn dan Gadeiryddiaeth medrus y Cadeirydd gyda chymorth y Clerc. Fe soniodd am arwyddion da y tu allan i'r cyfarfod, yn ogystal ag arwyddion gydag enwau'r cynghorwyr yn y cyfarfod. Roedd y Clerc yn newydd ac roedd cwrs hyfforddiant priodol wedi cael ei ddewis ar ei chyfer. Fe ddarparodd adroddiad da a thrylwyr. Roedd yn canmol lefel yr ymrwymiad a chyfraniadau gan bawb oedd yn bresennol.

Roedd yn teimlo y byddai'n fuddiol petai Cynghorau Tref a Chymuned yn cyhoeddi cofnodion drafft eu cyfarfodydd blaenorol o ystyried yr amser rhwng cyfarfodydd, a byddai hyn yn gynorthwyol i aelodau'r cyhoedd. Roedd y Cynghorydd Heesom yn cefnogi hyn a gofynnodd i'r Swyddog Monitro edrych ar y posibilrwydd.

Roedd un ymweliad ar ôl, sef i Gyngor Tref Shotton; roedd y Cynghorydd Ken Molyneux yn ymweld yr wythnos nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad llafar a rhoi adborth i'r Cynghorau Tref a Chymuned.

## 33. ADBORTH O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad gan egluro fod aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi mynychu pob cyfarfod Cyngor Tref a Chymuned heblaw un dros y 12 mis diwethaf. Cynhaliwyd yr ymweliadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned yn cael eu cynnal ar draws y Sir, gyda ffocws penodol ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau (y Cod), a darparu unrhyw adborth sydd yn deillio o'r ymweliadau a allai fod yn ddefnyddiol.

Yr adborth cyffredinol oedd fod cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir y Fflint wedi'u trefnu'n dda ac yn boblogaidd ac y dylid canmol Cynghorau Tref a Chymuned a'u Clercod am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Roedd copïau o lythyrau a anfonwyd i'r Cynghorau Tref a Chymuned ar ôl pob ymweliad wedi cael eu dosbarthu ac roeddynt ynghlwm wrth yr adroddiad.

Roedd themâu cyffredin wedi codi ac roedd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn credu y dylid gwneud gwelliannau i gyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned, sef:

1. Dylai 'Datgan Cysylltiad' ymddangos fel eitem sefydlog ar bob rhaglen cyn i eitemau'r cyfarfod cael eu rhestru;
2. Os bydd Cynghorydd yn Datgan Cysylltiad, dylent nodi ar lafar a yw'r cysylltiad yn bersonol, neu'n bersonol ac sy'n rhagfarnu, a dylid rhoi eglurhad byr o natur y cysylltiad gan gynnwys pa eitem y mae'r cysylltiad yn ymwneud ag o, a dylid ei gyflwyno'n ysgrifenedig cyn diwedd y cyfarfod hefyd;
3. Dylai rhaglenni fod ar gael ar wefan y Cyngor cyn y cyfarfodydd a dylai cofnodion y cyfarfod gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor;
4. Er mwyn hyrwyddo hygyrchedd, dylai lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfodydd fod ar gael ar wefan y Cyngor a dylid rhoi digon o arwyddion o amgylch y lleoliad ei hun;
5. Dylai enwau'r Cynghorwyr gael eu hargraffu mewn cyfarfodydd er mwyn i aelodau'r cyhoedd wybod pwy ydi Aelodau'r Cyngor;
6. Dylid trefnu sesiynau cynefino i bob Cynghorydd newydd, gan gynnwys eglurhad o'r hyn a ddisgwylir ganddynt o dan y Cod;
7. Mae'r materion sydd eu hangen o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 wedi'u cyhoeddi ar wefannau Cynghorau Tref a Chymuned:
    a) Gwybodaeth ynghylch sut i gysylltu â'r Cyngor, ac os yn wahanol, y Clerc gan gynnwys:
        i. Rhif Ffôn;
        ii. Cyfeiriad Post;
        iii. Cyfeiriad e-bost;
    b) Gwybodaeth am bob Aelod, gan gynnwys:
        i. Enw'r Aelod;
        ii. Sut y gellir cysylltu â'r Aelod;

iii. Cysylltiad yr Aelod ag unrhyw Blaid (os o gwbl);
iv. Y ward y mae'r Aelod yn ei g/chynrychioli (lle y bo'n berthnasol);
v. Unrhyw swydd yn y Cyngor sydd gan yr Aelod;
vi. Unrhyw Bwyllgor o'r Cyngor y mae'r Aelod yn rhan ohono.

c) Cofnodion o'r hyn a ddigwyddodd yng nghyfarfod y Cyngor ac unrhyw ddogfen y cyfeirir atynt yn y cofnodion (yn ôl yr hyn sy'n rhesymol ymarferol);
d) Unrhyw fantolenni a archwiliwyd o gyfrifon y Cyngor; a
e) Chofrestr o fuddiannau'r Aelodau.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Johnson, fe eglurodd y Swyddog Monitro ei bod yn ofyniad i gyhoeddi manylion cyswllt Aelodau, ond roedd modd iddo roi caniatâd, yn dibynnu ar amgylchiadau, i wybodaeth o'r fath beidio â chael ei chynnwys ar y wefan neu ar ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd eu darllen.

Gofynnodd y Swyddog Monitro am adborth gan Gynghorau Tref a Chymuned ynghylch a oedd unrhyw argymhellion a amlinellwyd yn y saith llythyr wedi cael eu gweithredu. Gellir derbyn adborth hyd at 4 Tachwedd 2019 er mwyn i'r manylion gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol i'r Pwyllgor ar yr ymweliadau ym mis Rhagfyr 2019. Dywedodd y Cynghorydd Ted Palmer Cynghorydd Tref Treffynnon fod Cyngor Tref Treffynnon bellach yn arddangos enwau'r Cynghorwyr ers derbyn y llythyrau, ac roedd siarad cyhoeddus ar y rhaglen ac roedd ffurflenni Datgan Cysylltiad yn cael eu dosbarthu ar y byrddau.

Dywedodd y Cynghorodd Huw Morgan o Gyngor Cymuned Nannerch y dylai fod yn fwy amlwg fod y cyfarfod ar y cyd rhwng Cynghorau Tref a Chymuned yn cael ei ddarparu am 6.00pm ar agor i gynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned ac nid aelodau'r Pwyllgor Safonau'n unig, gan mai dyma oedd yn digwydd fel rheol gyda chyfarfodydd Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu i bob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir y Fflint a bod y thema gyffredin ac awgrymiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad yn cael eu cefnogi fel argymhellion o arfer orau i'r Cynghorau hynny.

## 34. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Derbyniwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol.

Ym mis Tachwedd bydd Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru yn cael ei gyflwyno yn ogystal ag adroddiad am Drafod gyda'r Cyngor ar Faterion Moesegol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 35. <u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>

Nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30 pm a daeth i ben am 7.40 pm)

..................................................

**Cadeirydd**